# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER**
**8 Tachwedd 2023**
**AM 7.00 TRWY ZOOM**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng I Roberts, P Roberts, E L Shui-Nicholson, C Thomas, H N Evans, G Parry, D Fowlie (Cyngor Sir), G Owen (Clerc) | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng S P Jones, R G Parry | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod, a dymunodd wellhad buan i'r Cyng R G Parry |
| | |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** – Cyng H N Evans – yr Ysgol Feithrin, Ysgol Bryngwran |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 11.10.23 fel cofnodion cywir. Cyng P Roberts yn cynnig a Cyng E L Shui-Nicholson yn eilio. |
| | |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Offer y maes Chwarae** – Mae'r offer chwarae newydd bellach yn ei le |
| **4.2** | **Lay-by Engedi** - Mae'r tyllau yn y gilfan wedi'u llenwi. Gellir cau'r mater yn awr. |
| **4.3** | **Wal mynwent Llanbeulan** – Mae wal y fynwent bellach wedi'i hatgyweirio. |
| **4.4** | **Maes Chwarae CCTV** – Mae'r Clerc yn trefnu cyfarfod gyda'r Brifathrawes yn Ysgol Bryngwran i drafod CCTV |
| **4.5** | **Mynwent Salem** - Mae'r Clerc wedi gofyn i'r contractwr fynd ymlaen i dorri'r gwrychyn |
| **4.6** | **Teirw Bryngwran** – Mae y Clerc wedi derbyn taliad o £3152 oddi wrth Teirw Bryngwran. Gwneir y rhodd ar yr amod bod yr arian yn cael ei wario ar y maes chwarae. Mae'r Clerc wedi anfon llythyr o ddiolch. |
| **4.7** | **Bin Lon Ty Hen** - Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan Humphreys Waste ynglŷn â gwagio'r bin |
| | Llofnod…………………………Cadeirydd 10.01.24 |

| | |
|---|---|
| **5** | **ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Atgoffodd y Cadeirydd bawb o Sul y Cofio ar Dachwedd 12. Ychwanegodd fod Mr Brian Jones wedi bod yn tacluso a chwynnu o gwmpas y gofeb. Mae angen gwneud rhywfaint o waith ar y llechi yn y gofeb. Cytunwyd i drafod hyn yn y cyfarfod nesaf.<br>Ychwanegodd fod yr Ysgol Feithrin wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais am grant gyda Cynghrair Crigyll |
| **6** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | **Cynllunio** |
| **6.1** | HHP/2023/223 cais llawn ar gyfer codi anecs yn Tyn y Ffynnon, Engedi - 'Roedd aelodau'n bryderus ynglŷn â maint yr anecs, ei bwrpas a'r fynedfa/allanfa i'r eiddo |
| **7** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **7.1** | Gwair Mynwent Salem - Cadarnhad bod y gwair wedi ei dorri yr wythnos diwethaf |
| **7.2** | Gwair Mynwent Bryngwran - Torrwyd hyn hefyd yr wythnos diwethaf |
| **7.3** | Ffermwyr Ifanc Ynys Môn – Cais am gyfraniad tuag at gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Tachwedd. Cytunwyd i gynnig £100. |
| **7.4** | Sedd wâg - Mae'r Clerc wedi derbyn cais gan Howell Owens i eistedd ar y cyngor. Cytunwyd i gynnig y sedd wag iddo. |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| | Dim |
| **9** | **MATERION ARIANNOL** |
| | Cytunwyd i dalu'r canlynol: |
| **9.1** | G Owen (arwyddion CCTV) £13.16 |
| **9.2** | G Owen (ink) £17.99 |
| **9.3** | T H Jones (wal Eglwys Llanbeulan) £400.00 |
| **9.4** | Seren Embroidery (Fleece Cadeirydd) £39.60 |
| **9.5** | Rhoddion Nadolig: Ysgol Feithrin £150, Ysgol Bryngwran £100, Canolfan Dydd Plas Crigyll £100, Plas Crigyll £100, Eglwys y Plwyf £100. |
| **9.6** | Playquest (Offer maes Chwarae) £19668. |
| **10** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| **10.1** | Y Gofeb |
| **10.2** | Llwybr Eglwys Llanbeulan |
| | Llofnod…………………………Cadeirydd 10.01.24 |